# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd Scallywags - Dinbych**

**Meithrinfa Ddydd Scallywags**
**Llwyn Isa Cottage**
**Llanrhaeadr**
**LL16 4NG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

21/10/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Ddydd Scallywags - Dinbych

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | |
| Lleoedd cofrestredig | 12 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 12/04/2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato<br>Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19. Felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn mwynhau eu hunain yn y lleoliad hwn, am eu bod yn cael eu parchu ac yn brysur yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Maent yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau, ac mae'r staff o'r farn bod eu diddordebau yn bwysig. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn dysgu sut i fod yn annibynnol ac yn rhyngweithio'n dda.

Mae'r staff galluog yn gofalu am y plant yn dda ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelwch y plant. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn garedig ac yn deg, ac mewn ffordd y mae'r plant yn ei deall. Maent yn brofiadol ac yn darparu gweithgareddau diddorol er mwyn helpu'r plant i ddatblygu'n dda.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, ac yn cynnwys gweithgareddau ac ardaloedd chwarae a dysgu i feithrin sgiliau'r plant. Mae'r ardal dan do a'r ardal awyr agored yn addas ar gyfer y plant. Mae digonedd o deganau a gemau ar gael er mwyn helpu gyda datblygiad y plant, ac mae'r rhain mewn cyflwr da.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn wybodus am arferion gofal plant cyfredol, ac mae hyn yn sicrhau lefel foddhaol o ofal ar gyfer y plant. Maent yn gwneud gwelliannau er budd y plant a'u teuluoedd. Maent yn cefnogi tîm o staff ymroddedig. Mae partneriaethau llwyddiannus â'r rhieni, sy'n helpu'r plant i setlo ac yn helpu eu teuluoedd i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

## Llesiant

Mae gan y plant lais a gallant ddylanwadu ar eu gofal. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau a chaiff eu diddordebau eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn helpu eu hunain i deganau. Maent yn hoffi eistedd ar y meinciau a, phan fyddant yn tynnu bwrdd bach tuag atynt, bydd y staff yn awgrymu teganau bwrdd ar eu cyfer. Maent yn ddigon hyderus i siarad â'r staff a mynegi eu hunain. Gall y plant y mae angen gofal drwy gyfrwng y Gymraeg arnynt gael hynny gan y bydd y staff yn siarad Cymraeg yn rheolaidd.

Mae'r plant wedi setlo ac maent yn meithrin cydberthnasau agos â'r staff. Maent yn barod i fynd at y staff i gael maldod ac i sgwrsio. Dywedodd rhiant wrthym fod ei blentyn yn mwynhau mynychu'r lleoliad.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ac yn cydweithredu pan ofynnir iddynt olchi eu dwylo cyn ac ar ôl cael byrbryd a phan fyddant yn dod i mewn ar ôl bod yn chwarae yn yr awyr agored. Mae'r plant yn rhannu ac yn gwneud ffrindiau, sy'n briodol ar gyfer eu camau datblygu, er enghraifft, maent yn cymryd eu tro ar y teganau reidio y tu allan. Mae'r plant wrth eu bodd pan fyddant yn cael cyfrifoldeb dros roi'r teganau i gadw gyda chymorth. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad o falchder a chyflawniad i'r plant.

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae, ac yn ymgysylltu ag ef. Gwelsom y plant yn ymgolli mewn gweithgareddau, megis sialcio y tu allan a thynnu lluniau â chreonau. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau hwyhwy, er enghraifft, wrth gwblhau posau jig-so, ac maent yn awyddus i rannu'r hyn y maent yn ei wneud ag eraill. Caiff y plant gyfleoedd i wneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn dewis teganau a gweithgareddau, ac yn rhoi teganau i gadw ar ôl eu defnyddio cyn cael cinio.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r staff yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith, ac wedi adolygu'r lleoliad a'r gofal yn unol â'r canllawiau sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19. Maent yn gallu siarad yn hyderus am ddiogelu a'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn.
Mae'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar amddiffyn plant, cymorth cyntaf a hylendid bwyd.

Maent yn rhoi gweithdrefnau da ar waith wrth newid cewynnau, sy'n lleihau'r risg o groesheintio. Mae'r staff yn cynnig cyfleoedd i'r plant wneud ymarfer corff rheolaidd yn yr awyr iach. Maent yn glanhau'n effeithiol, ac maent yn sychu byrddau rhwng gweithgareddau. Er na chaiff meddyginiaeth ei rhoi ar hyn o bryd, nid yw cofnodion blaenorol yn dangos bod y rhieni wedi cytuno cyn rhoi dosau. Mae'r staff yn darparu byrbrydau a phrydau maethlon, gan gynnwys ffrwythau a llysiau. Dyfarnwyd sgôr o bump i'r lleoliad am baratoi bwyd yn ddiogel yn ddiweddar.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n dda â'r plant, gan eu goruchwylio'n gyson wrth iddynt ymgymryd â thasgau pob dydd. Maent yn helpu'r plant i reoli eu hymddygiad ac yn hybu eu hunan-barch gan eu bod yn rhoi llawer o ganmoliaeth iddynt. Rhoddir sticeri i'r plant am helpu ac am enghreifftiau eraill o ryngweithio'n gadarnhaol, sy'n hyrwyddo ymddygiad cyfeillgar. Mae'r staff yn dangos esiampl dda wrth iddynt ryngweithio'n dda â'r plant, neilltuo amser iddynt, siarad â nhw a gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei ddweud. Caiff y plant eu hannog i ddweud diolch.

Mae'r staff yn cydweithio'n dda i ddiwallu anghenion y plant yn effeithiol ac maent yn gwneud cynnydd yn y gwasanaeth. Mae'r staff yn gyfarwydd â sgiliau a dewisiadau'r plant. Maent yn cofnodi arsylwadau ar ddatblygiad y plant ac yn cynllunio gweithgareddau i wella eu datblygiad. Mae'r staff yn diwallu anghenion ieithyddol y plant sy'n dod o gartrefi Cymraeg ac maent yn cyflwyno'r Gymraeg fel ail iaith.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da, sy'n darparu lle diogel a chyfforddus i'r plant ymlacio a dysgu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi nodi risgiau a chymryd camau gweithredu i leihau neu ddileu'r rhain. Er enghraifft, sicrhawyd bod y prif gyntedd yn daclus er mwyn osgoi'r perygl o faglu i'r plant a'r oedolion. Mae ymarferion tân rheolaidd yn dangos bod y staff a'r plant yn gwybod sut i adael y safle mewn argyfwng yn ddiogel, ac mae'r ymarferion hyn yn cael eu cofnodi.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau amgylchedd addas ac yn darparu amrywiaeth o ardaloedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn lle gall y plant chwarae ac archwilio. Mae ardal awyr agored, sy'n cynnwys iard, a bydd y plant yn mynd am dro i gefn gwlad yn aml i weld ceffylau. Dywedodd rhiant wrthym fod ei blentyn yn mwynhau bod allan yn yr awyr agored yn arbennig. Mae toiled hygyrch ar gyfer y plant hŷn ac ardal breifat benodol i newid cewynnau. Mae hyn yn galluogi'r plant i ddefnyddio'r toiled yn annibynnol.

Mae digon o adnoddau ar gael, megis teganau i blant bach, papur ac eitemau crefft, gan sicrhau bod gan y staff y cyfarpar i gynnig gweithgareddau ysgogol a chyffrous i'r plant. Mae dodrefn addas ar gyfer y plant a chadeiriau uchel ar gyfer y babanod. Fodd bynnag, mae'r hambyrddau ar rai o'r cadeiriau uchel pren wedi treulio a dywedodd y person cofrestredig y byddai rhai newydd yn cael eu prynu.

## Arwain a Rheoli

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn brofiadol ac yn gwybod llawer am arferion gofal plant cyfredol. Nodir hyn yn y Datganiad o Ddiben cynhwysfawr. Yn ystod yr arsylwadau a wnaed fel rhan o'r arolygiad, gwelwyd tystiolaeth fod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn diwallu anghenion y plant a'u rhieni. Caiff y polisïau a'r gweithdrefnau eu diweddaru a'u rhannu â phob aelod o'r staff. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r holl brosesau i'w dilyn. Dylid diweddaru'r polisi diogelu er mwyn cynnwys datganiad am ymdrin â radicaleiddio (safbwyntiau eithafol a all arwain at drais).

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn monitro ac yn gwerthuso'r gwasanaeth bob blwyddyn. Caiff safbwyntiau'r rhieni a'r plant eu hystyried o ddifrif, a chaiff cryfderau a meysydd i'w gwella eu nodi yn yr Adolygiad Blynyddol o Ansawdd y Gofal. O bryd i'w gilydd, bydd y cynlluniau gweithgareddau ysgrifenedig yn cynnwys datganiadau gwerthusol i nodi a wnaeth y plant fwynhau'r gweithgaredd.

Mae'r broses o recriwtio staff yn gadarn. Mae ffeiliau'r staff yn dangos bod yr holl wiriadau ar waith i ddangos bod y staff yn addas i weithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r arfarniadau blynyddol yn ystyrlon ac yn cynnwys hyfforddiant a meysydd i'w gwella yn y dyfodol. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus yn gweithio yn y lleoliad. Roedd y staff yn gweithio'n dda fel tîm, ac roedd pob un ohonynt yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau, ac yn arwain y plant yn briodol. O ganlyniad i hyn, mae'r plant wrth eu bodd â'r gofal a ddarperir gan staff brwdfrydig sydd ag agwedd rwydd.

Mae dulliau cyfathrebu effeithiol ar waith rhwng y bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r rhieni, sy'n adlewyrchu pa mor bwysig yw'r bartneriaeth â'r rhieni iddynt. Mae'r cydberthnasau â'r rhieni yn gadarnhaol ac yn cyfrannu at lesiant y plant, gan fod modd i'r rhieni ddweud wrth y staff am yr hyn y mae eu plant wedi ei fwynhau yn arbennig. Mae'r arferion hyn yn galluogi'r rhieni/gwarcheidwaid i barhau i fod yn rhan o ofal eu plant.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

**A1** mae angen i gofnodion meddyginiaeth gynnwys llofnod rhiant cyn rhoi dos
**A2** prynu cadeiriau uchel newydd yn lle'r rhai sydd wedi treulio
**A3** diweddaru'r polisi diogelu er mwyn cynnwys datganiad am ymdrin â radicaleiddio (safbwyntiau eithafol a all arwain at drais)

| Meysydd i'w gwella a chamau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi ei gyflawni |
| --- |

| Meysydd i'w gwella a chamau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
| --- | --- |
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/11/2021